

PWYLLGOR TRWYDDEDU DIOGELWCH CYHOEDDUS

Hysbysiad Penderfyniad – Cyfarfod o Bell, 16 Mai, 2023.

Mae'r Agenda ar [gael yma](#).

Mae recordiad y cyfarfod ar [gael yma](#).

Yn Bresennol: Y Cynghorydd P. Drake (Cadeirydd); Cynghorydd J.M. Norman (Is-Gadeirydd); Cynghorwyr G. Bruce, L. Burnett, V.P. Driscoll, R. Fisher, C.P. Franks, E. Goodjohn, W.A. Hennessy, N.B. Marshallsea, M.J.G. Morgan a S.T. Wiliam.

EITEM AGENDA 1. YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB –

Derbyniwyd y rhain gan Gynghorwyr H.C. Hamilton, R. Sivagnanam a M.R. Wilkinson.

EITEM AGENDA 2. COFNODION –

ARGYMHELLWYD – CYMERADWYO cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 18 Ebrill, 2023 fel cofnod cywir.

EITEM AGENDA 3. DATGANIADAU BUDDIANT –

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau buddiant.

EITEM AGENDA 4. EITHRIAD RHAG GOFYNION PLÂT LLOGI PREIFAT A STICER DRWS (CAT) –

PENDERFYNWYD – Caniatáu'r eithriadau i Mr. Wilton ar gyfer Amodau 8 a 9 yn ymwneud â cherbydau hurio preifat mewn perthynas â cheisiadau a wnaed am Drwydded Cerbyd Hurio Preifat, i gofrestru cerbyd CK69 XVG.

Rheswm dros y penderfyniad

Gan ystyried cynnwys yr adroddiad a'r trafodaethau yn y cyfarfod.

EITEM AGENDA 5. CANLLAWIAU POLISI CAIS I HEPGOR OED AR GYFER TRWYDDEDU CYNTAF CERBYD HURIO PREIFAT (CAT) –

PENDERFYNWYD – Caniatáu'r cais i hepgor Canllawiau Polisi Oed Cyngor Bro Morgannwg ar gyfer cerbyd Ford Mondeo, rhif cofrestru CU64 NCD gan fod y cerbyd yn addas o ran math, maint a dyluniad yn unol ag Adran 48 o Ddeddf Llywodraeth Leol (Amrywiol). Darpariaethau Deddf 1976 i'w drwyddedu fel Cerbyd Hurio Preifat.

Rheswm dros y penderfyniad

Gan ystyried cynnwys yr adroddiad a'r trafodaethau yn y cyfarfod.